

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Gwaun Cae
Gurwen (GCG), Bwrdd Iechyd
Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 03 Mehefin 2025

Dyddiad cyhoeddi: 03 Medi 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Gwaun Cae Gurwen (GCG), Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 03 Mehefin 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion a'r staff i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio a gweithio yn y gwasanaeth. Yn anffodus, ni chawsom unrhyw holiaduron wedi'u cwblhau.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal parchus ac urddasol drwy gydol eu taith fel cleifion yn y lleoliad hwn. Gwelsom dystiolaeth bod ymdrechion gweithredol ar waith i gefnogi hawliau ac i drin unigolion yn gyfartal, gyda'r staff yn cael eu hannog i gwblhau hyfforddiant i amddiffyn hawliau'r cleifion.

Roedd gwybodaeth hybu iechyd y geg da, gan gynnwys posteri a oedd yn cynnwys gwybodaeth am ddeiet iach, rhoi'r gorau i smygu ac arwyddion canser y geg, yn cael ei harddangos ar gyfer y cleifion. Roedd datganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion y practis ar gael i'r cleifion eu gweld.

Gwelsom fod proses rheoli apwyntiadau addas ar waith i ddefnyddio amser yr ymarferwyr yn briodol. Cadarnhaodd y staff fod y practis yn cymryd rhan yng ngwasanaeth 111 y GIG i drin apwyntiadau brys y GIG yn ardal y bwrdd iechyd. Gwelsom hefyd fod nifer o slotiau yn y dyddiadur bob dydd er mwyn cynnal apwyntiadau brys ar gyfer eu cleifion eu hunain.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y ddogfennaeth hybu iechyd ar gyfer y cleifion yn glir ac yn llawn gwybodaeth
- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd urddasol a pharchus
- Roedd y practis yn canolbwyntio ar ddarparu gofal i'r cleifion mewn modd amserol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom bractis taclus a threfnus a oedd mewn cyflwr boddhaol y tu mewn a'r tu allan. Roedd yr holl drefniadau diogelwch tân ac iechyd a diogelwch ar gyfer y practis yn briodol ac yn sicrhau bod y cleifion yn cael gofal diogel mewn lleoliad diogel sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Gwelsom fod cyfarpar deintyddol y practis mewn cyflwr da a bod y gweithdrefnau i sicrhau bod cyfarpar aml dro yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio'n briodol yn ystafell ddihalogi'r practis yn gadarn.

Roedd gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar gael i bob aelod o'r staff, ond gwnaethom nodi meysydd i'w gwella mewn perthynas â'r defnydd o ddyfeisiau offer miniog mwy diogel.

Roedd yr holl gyfarpar brys ar gael yn y practis ac roeddent o fewn y dyddiadau defnyddio. Roedd yr holl feddyginiaethau yn cael eu rheoli'n gywir ac roedd y silindrau ocsigen yn cael eu gwasanaethu yn ôl yr angen. Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant adfywio cardiopwlmonaidd a hyfforddiant ar ddefnyddio ocsigen yn ddiogel.

Roedd cofnodion clinigol yn cael eu cynnal i safon addas. Fodd bynnag, gwnaethom nodi meysydd i'w gwella mewn perthynas â'r manylion a gedwir yng nghofnodion y cleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cyflawn eu cadw bob amser yn unol â'r gofynion a'r canllawiau proffesiynol
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod mesurau rheoli risg priodol ar waith i atal anafiadau a achosir gan offer miniog.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw i safon dda a'i gadw'n lân
- Roedd y cyfarpar yn gweithio'n effeithiol ac roedd y gweithdrefnau dihalogi yn gadarn
- Roedd y mesurau diogelu yn gynhwysfawr ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom staff gwybodus a chefnogol a oedd yn gweithio i ddarparu gofal effeithiol i'w cleifion. Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y cymorth cadarnhaol y maent yn ei gael gan y tîm rheoli ac roedd y staff yn gwybod â phwy i gysylltu os bydd angen help neu gymorth arnynt.

Roedd y gweithdrefnau sefydlu yn cael eu rheoli mewn modd cefnogol ar gyfer aelodau newydd o staff, a gwelsom dystiolaeth fod yr holl arfarniadau'n cael eu cynnal bob blwyddyn. Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau eu hyfforddiant gorfodol a bod y staff yn cael amser i gwblhau cyrsiau yn ystod oriau gwaith.

Roedd y system a oedd ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion yn addas. Fodd bynnag, ni welsom ffordd i'r staff gyfleu'r newidiadau a wnaed ganddynt o ganlyniad i'r adborth a gawsant.

Gwelsom fod dull rhagweithiol o wella ansawdd ar waith a bod yr holl weithgareddau gwella gorfodol yn cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau cynhwysfawr a rheolaidd o gofnodion cleifion, rhagnodi gwrthficrobaidd, gwastraff gofal iechyd ac archwiliadau atal a rheoli heintiau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r rheolwr cofrestredig roi ffordd o gyfleu sut mae'r practis wedi dysgu a gwella o'r adborth a gafwyd gan y cleifion ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd strwythurau rheoli clir a oedd yn helpu i redeg y practis yn effeithiol
- Gwelsom gydberthnasau gwaith da ymysg y staff ac amgylchedd gweithio cadarnhaol yn y practis
- Roedd pob aelod o'r staff yn cydymffurfio â'r gofynion hyfforddiant gorfodol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod gwybodaeth ar gael i'r cleifion i hybu iechyd y geg da, gan gynnwys posterï a oedd yn cynnwys gwybodaeth am ddeiet iach, rhoi'r gorau i smygu ac adnabod arwyddion canser y geg. Roedd datganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion y practis ar gael i'r cleifion eu gweld. Roedd y ffioedd ar gyfer gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau preifat yn cael eu harddangos yn glir yn ardal y dderbynfa. Roedd enwau'r staff clinigol a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos lle y gellid eu gweld yn hawdd. Roedd oriau agor y practis a manylion cyswllt mewn argyfwng i'w gweld yn glir ar y drws ffrynt.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal urddasol a pharchus drwy gydol eu taith fel claf. Gwnaethom nodi fod y dderbynfa ac ardaloedd aros y cleifion wedi'u huno; fodd bynnag, roedd cleifion yn cael cynnig siarad â'r staff yn breifat i ffwrdd o ardal y dderbynfa pe byddai angen. Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei hailadrodd dros y ffôn er mwyn diogelu cyfrinachedd y cleifion. Roedd drysau solet ar ddeintyddfeydd y practis, a oedd yn cael eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau. Roedd gwydr barugog yn bresennol ar ffenestri'r llawr gwaelod. Roedd y mesurau hyn yn cynnal preifatrwydd y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion.

Roedd cytundeb cyfrinachedd ar waith yn y practis a oedd wedi'i lofnodi gan bob aelod o'r staff ac yn nodi disgwyliadau'r practis i sicrhau preifatrwydd gwybodaeth am gleifion. Gwelsom fod y naw egwyddor graidd a baratowyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn y dderbynfa.

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom fod proses rheoli apwyntiadau addas ar waith i ddefnyddio amser yr ymarferwyr yn briodol. Byddai cleifion yn trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb ar ôl eu hapwyntiadau. Dywedodd y staff wrthym mai anaml y byddent yn rhedeg yn hwyr o ran apwyntiadau. Fodd bynnag, lle roedd apwyntiadau yn mynd y tu hwnt i'r amser a drefnwyd, roedd y clinigwyr yn cysylltu

â staff y dderbynfa er mwyn hysbysu'r cleifion am unrhyw oedi, gan gynnig apwyntiadau amgen iddynt, lle y gofynnir am hynny.

Gwelsom sut roedd y cleifion yn cael eu brysbennu dros y ffôn er mwyn sicrhau bod y rhai â'r anghenion mwyaf dybryd yn cael eu blaenoriaethu. Cadarnhaodd y staff fod y practis yn cymryd rhan yng ngwasanaeth 111 y GIG i drin apwyntiadau brys y GIG yn ardal y bwrdd iechyd. Gwelsom hefyd fod nifer o slotiau yn y dyddiadur bob dydd er mwyn cynnal apwyntiadau brys ar gyfer eu cleifion eu hunain.

Dywedodd y staff wrthym fod gan bob clinigydd amseroedd aros gwahanol rhwng apwyntiadau ond nad oedd unrhyw glaf yn aros mwy na chwe wythnos rhwng triniaethau. Roedd rhestrau gohirio apwyntiadau yn cael eu cadw a oedd yn galluogi'r cleifion i weld clinigwyr yn gynt pe baent yn dymuno gwneud hynny. Lle y bo'n bosibl, roedd apwyntiadau yn cael eu trefnu'n unol ag argaeledd y cleifion. Roedd system ar waith i blant gael apwyntiadau ar amser a oedd fwyaf addas ar gyfer eu hanghenion addysgol. Dywedodd y staff wrthym fod y practis yn cynnal sesiynau estynedig yn rheolaidd yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau er mwyn trin cleifion ar amser a oedd fwyaf cyfleus iddyn nhw.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod trefniadau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau cyfathrebu rhwng y clinigwyr a'r cleifion. Roedd Language Line yn cael ei ddefnyddio, lle y bo angen, i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Roedd dogfennau ar gael mewn fformatau gwahanol, megis fformat hawdd ei ddeall, ac roedd dogfennau mwy arbenigol yn cael eu darparu ar gais. Roedd y practis yn defnyddio dyfeisiau digidol, a oedd yn cynnwys swyddogaethau chwyddo a nifer o ieithoedd i ddewis ohonynt, er mwyn i'r cleifion gwblhau eu hanes meddygol. Gwelsom y byddai sgiliau iaith yn cael eu nodi fel nodwedd fanteisiol yn ystod recriwtio a chynllunio'r gweithlu. Dywedodd y staff bod ganddynt gleifion a oedd yn drwm eu clyw, a bod y cleifion hyn yn anfon e-bost i gadarnhau eu hapwyntiadau. Roedd dolen sain ar gael i'r cleifion hyn pan roeddent yn y practis.

Gwelsom dystiolaeth gref fod y practis yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd dogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, lle y bo'n bosibl. Dywedodd y staff wrthym fod y bwrdd iechyd yn eu helpu i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith. Rhoddodd rheolwr y practis wybod i ni ei fod wedi gofyn am ddogfennaeth yn Gymraeg gan y GIG ond dywedwyd wrtho nad oeddent ar gael yn Gymraeg.

Gwelsom y gellid cynnig triniaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, pe bai angen. Gwelsom y staff yn gwisgo bathodynau iaith Gwaith i annog y cleifion i siarad

Cymraeg heb fod angen iddynt ofyn am siaradwr Cymraeg. Yn ystod ein harolygiad, clywsom y clinigwyr yn cyfathrebu â'i gilydd ac â'r cleifion yn Gymraeg.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth a oedd yn nodi bod dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi yn unrhyw un o'r sampl o 10 o gofnodion cleifion a welsom. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym fod y maes dewis iaith wedi cael ei ychwanegu at sgrin manylion y cleifion yn ddiweddar i'w gofnodi yn y dyfodol. Mae cofnodi dewis iaith y cleifion yn bwysig er mwyn cefnogi prosesau cyfathrebu effeithiol a sicrhau eu bod yn cael gofal priodol.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom dystiolaeth bod ymdrechion gweithredol ar waith i gefnogi hawliau ac i drin unigolion yn gyfartal. Roedd polisiâu priodol ar waith yn y practis er mwyn cefnogi hawliau'r cleifion a'r staff. Roedd y staff yn cael eu hannog i gwblhau hyfforddiant er mwyn helpu i ddiogelu hawliau'r cleifion ac atal achosion o aflonyddu neu wahaniaethu. Roedd polisi dim goddefgarwch i aflonyddu hefyd ar waith i ddiogelu'r staff rhag ymddygiad ymosodol.

Rhoddodd y staff enghreifftiau lle roedd newidiadau wedi'u gwneud i'r amgylchedd fel addasiad rhesymol ar gyfer cleifion a chyflogaion. Roedd y rhain yn cynnwys rhoi opsiwn i'r cleifion ag awtistiaeth gael apwyntiadau yn ystod amseroedd tawelach o'r dydd neu i eistedd ac aros y tu allan i'r practis nes bydd eu clinigydd yn barod. Hefyd, roedd un aelod o'r staff wedi cael cadair arbenigol ar gyfer ei gyflwr.

Roedd hawliau cleifion yn cael eu cynnal ymhellach drwy eu galluogi i ddewis y rhagenwau, yr enwau a'r rhywedd a ffefrir ganddynt ar eu cofnodion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom bractis taclus a threfnus a oedd yn ymddangos ei fod mewn cyflwr boddhaol y tu mewn a'r tu allan. Roedd y practis wedi'i drefnu dros ddau lawr, gydag ardaloedd aros o faint priodol ar gyfer nifer y cleifion. Roedd ramp ar gael i gyrraedd y llawr gwaelod a'r deintyddfeydd ar y llawr hwnnw er mwyn helpu'r rhai hynny ag anawsterau symudedd. Clywsom y llinellau ffôn yn gweithio'n dda a gwelsom fod y staff yn defnyddio system negeseuon gwib i gyfathrebu'n fewnol. Gallai'r staff newid mewn ardal breifat lle roedd loceri er mwyn iddynt storio eu heitemau personol yn ddiogel. Roedd yr ystafell staff yn y practis o faint da ac yn galluogi'r staff i gymryd egwyl gyda'i gilydd.

Roedd toiled ar gael i'r cleifion yn y practis a oedd yn lân ac yn cynnwys y cyfarpar priodol. Fodd bynnag, nid oedd y toiled hwn yn addas i'r rhai hynny ag anawsterau symudedd. Roedd y cleifion yn cael eu cyfeirio at doiledau cyhoeddus lleol gerllaw fel dewis amgen.

Roedd cyfarpar deintyddol y practis mewn cyflwr da ac roedd digon o eitemau ar gael i allu eu dihalogi'n effeithiol ar ôl eu defnyddio. Roedd eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol.

Roedd polisïau a gweithdrefnau boddhaol ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff. Gwelsom fod asesiadau risg diweddar wedi cael eu cynnal ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch a'u bod yn gynhwysfawr. Roedd gwiriadau wedi cael eu cynnal er mwyn sicrhau diogelwch nwy a thrydan gan gcontractwyr. Dengys y cofnodion fod Profion Dyfeisiau Cludadwy wedi cael eu cynnal yn ddiweddar hefyd.

Nodwyd gennym fod trefniadau diogelwch tân cadarn a chynhwysfawr ar waith ar gyfer atal a chanfod tân. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys cynnal a chadw'r cyfarpar diogelwch tân yn rheolaidd ac arddangos arwyddion allanfeydd tân a dim smygu yn glir.

Roedd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr y practis wedi'i harddangos yn y dderbynfa ac roedd poster yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi'i arddangos yn ardal y staff.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau priodol ar waith i gynnal lefel dda o lendid ym mhob rhan o'r practis. Gwelsom fod yr holl gyfarpar a'r amgylchedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n foddhaol fel bod modd eu glanhau a'u dihalogi'n effeithiol.

Roedd gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar gael i bob aelod o'r staff, a gwelsom fod asesiadau risg wedi cael eu cynnal i fonitro'r risg o niwed o ganlyniad i anafiadau a achosir gan offer miniog. Gwelsom fod yr asesiad risg yn nodi fod dyfeisiau offer miniog mwy diogel yn cael eu defnyddio i leihau'r risg o anafiadau damweiniol a achosir gan nodwyddau. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd dyfeisiau offer miniog mwy diogel yn cael eu defnyddio gan y staff clinigol ar hyn o bryd ac felly, ni chawsom sicrwydd bod y risg i unigolion o ddioddef anafiadau a achosir gan offer miniog yn cael ei reoli'n gywir. Pan godwyd hyn â thîm rheoli'r practis, cawsom wybod y bydd y lleoliad yn archebu dyfeisiau offer miniog mwy diogel ac yn dechrau eu defnyddio er mwyn lleihau'r risg o anafiadau a achosir gan nodwyddau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd i drin, gwaredu, a storio offer miniog yn ddiogel er mwyn atal anafiadau a achosir gan nodwyddau.

Roedd yr holl gyfarpar diogelu personol arall ar gael yn hwylus i'r staff. At hynny, gwelsom fod y gweithdrefnau hylendid dwylo a'r arwyddion yn briodol.

Roedd mesurau addas ar waith i sicrhau bod cyfarpar aml dro yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio'n gywir yn ystafell ddihalogi'r practis. Gwelsom gofnodion priodol a oedd yn dangos bod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal o gylchredau'r peiriant awtoclaf a bod amserlen o waith cynnal a chadw rheolaidd ar waith yn unol â'r canllawiau presennol. Cadarnhaodd y cofnodion hyfforddiant y gwnaethom edrych arnynt fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant boddhaol ar ddihalogi'r cyfarpar yn gywir.

Gwelsom fod y broses ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn foddhaol. Roedd holl wastraff y practis yn cael ei storio a'i waredu'n gywir drwy gontract gwaredu gwastraff addas.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin, storio, defnyddio a gwaredu meddyginiaethau. Roedd yr oergell a ddefnyddir i storio meddyginiaethau yn cael ei rheoli'n gywir ac roedd gwiriadau tymheredd yn cael eu cofnodi'n addas.

Gwelsom fod mesurau cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod argyfyngau meddygol yn cael eu rheoli'n ddiogel ac yn effeithiol. Roedd cofnodion y staff yn dangos bod pob

un ohonynt yn meddu ar gymwysterau boddhaol ym maes adfywio cardiopwlmonaidd a bod nifer addas o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf. Wrth archwilio'r cyfarpar brys, gwelsom fod yr holl eitemau yn bresennol, yn hawdd cael gafael arnynt ac o fewn eu dyddiadau defnyddio. Gwnaethom nodi bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r holl gyfarpar brys.

Roedd silindrau ocsigen yn cael eu gwasanaethu'n briodol ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant i'w defnyddio.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd gweithdrefnau diogelu cynhwysfawr a chyfredol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion. Roedd y gweithdrefnau yn ystyried Gweithdrefnau Diogelu Cymru, yn cynnwys manylion cyswllt gwasanaethau cymorth lleol ac yn nodi arweinydd diogelu a enwir ar gyfer y practis. Roedd diweddariadau i'r polisiâu a'r gweithdrefnau diogelu yn cael eu cyfathrebu drwy'r bwrdd iechyd a thrwy aelodaeth y practis o Denplan.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant addas ar ddiogelu plant ac oedolion. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn hyderus i nodi unrhyw bryderon diogelu ac yn deall y gweithdrefnau diogelu gan ddweud eu bod yn teimlo y byddent yn cael eu cefnogi pe byddent yn codi pryder.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod y dyfeisiau meddygol a'r cyfarpar clinigol mewn cyflwr da ac yn addas at y diben, a oedd yn caniatáu ar gyfer darparu gofal diogel i'r cleifion. Roedd y cyfarpar deintyddol aml dro yn cael ei ddefnyddio mewn modd a oedd yn hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw ac arsylwi arnynt yn ystod yr arolygiad yn hyderus wrth ddefnyddio'r cyfarpar. Nodwyd gennym fod trefniadau addas ar waith ar gyfer gwasanaethu'r holl gyfarpar ac ar gyfer ymateb yn gyflym i fethiant system yr holl gyfarpar.

Roedd ffolder diogelu rhag ymbelydredd y practis a chopïau o'r rheolau lleol ar gael yn hawdd ac wedi'u cwblhau'n llawn. Roedd y clinigwyr yn amlinellu'r trafodaethau a gynhaliwyd mewn perthynas â risgiau a manteision dod i gysylltiad ag ymbelydredd yng nghofnodion y cleifion. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant addas ar gysylltiadau ag ymbelydredd ar gyfer eu rolau.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod y staff yn asesu cleifion ac yn gwneud diagnosis o anghenion cleifion yn ddiogel. Roedd cofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn dangos bod

triniaethau yn cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol, ac yn unol â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol. Dangosodd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac roeddent hefyd yn gwybod pryd i geisio cyngor proffesiynol perthnasol pe bai angen.

Gwelsom fod prosesau addas ar waith i gofnodi bod y cleifion yn deall y gweithdrefnau llawfeddygol ac yn cydsynio iddynt. Gwelsom ddefnydd priodol o restrau gwirio clinigol i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfanswm o 10 claf yn ystod ein harolygiad. Roedd y cofnodion yn cael eu cadw ar system ddigidol ddiogel, yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Roedd y cyfnod cadw ar gyfer yr holl gofnodion yn briodol, ac roedd atgyfeiriadau'n cael eu rheoli'n gywir i sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal oedd ei angen arnynt.

Roedd pob cofnod yn cynnwys yr hanes meddygol cychwynnol a diweddariadau dilynol, wedi'i gofnodi a'i lofnodi gan y claf a'r deintydd. Gwelsom dystiolaeth bod siartiau sylfaenol llawn, archwiliadau o feinweoedd meddal ac archwiliadau y tu mewn i'r geg a'r tu allan i'r geg yn cael eu cynnal a'u cofnodi lle y bo'n briodol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nifer o fylchau ac anghysondebau yn y meysydd canlynol yr oedd angen eu gwella:

- Nid oedd hanes deintyddol blaenorol pedwar claf wedi cael ei gofnodi
- Dim ond un o'r pedwar cofnod perthnasol a welsom oedd yn cynnwys gwybodaeth am y cyngor a roddwyd ar roi'r gorau i smygu
- Nid oedd tri chofnod yn cynnwys y rheswm dros fynychu
- Nid oedd chwe chofnod yn cynnwys siartiau a oedd yn cael eu diweddaru ar ôl pob cwrs o driniaeth
- Nid oedd saith cofnod yn amlinellu cydsyniad y cleifion i driniaeth ar sail gwybodaeth
- Nid oedd dau gofnod yn cynnwys cyfiawnhad dros radiograff
- Nid oedd dau gofnod arall yn cynnwys canfyddiadau clinigol y radiograffau a gynhaliwyd
- Nid oedd yr un cofnod perthnasol lle roedd gwrthfotigau wedi cael eu rhagnodi yn cynnwys cyfiawnhad cadarn dros ragnodi'r presgripsiwn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cyflawn eu cadw yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod y clinigwyr yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth boddhaol i ddiwallu anghenion eu cleifion ar safle addas. Roedd y cleifion yn symud yn effeithlon ar hyd llwybrau trin mewnol ac allanol. Roedd atgyfeiriadau brys yn cael eu cofnodi'n briodol a'u holrhain mewn modd amserol gan y clinigwyr. Gwelsom fod yr apwyntiadau hyn yn cael eu defnyddio'n effeithiol o ganlyniad i gymysgedd priodol o sgiliau a phroses trefnu apwyntiadau a brysbennu gadarn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Gwnaethom nodi bod strwythur rheoli clir ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol. Dywedodd rheolwr y practis wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi i ymgymryd â'i rôl arwain yn effeithiol a disgrifiodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw y cymorth cadarnhaol roeddent yn ei gael gan y tîm rheoli. Gwelsom fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal bob mis a bod pob aelod o'r staff yn bresennol ynddynt. Wrth adolygu cofnodion y cyfarfodydd staff, gwnaethom nodi trafodaethau addas am ddiogelu, hyfforddiant a llywodraethu clinigol. Roedd cyfarfodydd y tîm rheoli yn cael eu cynnal bob mis, yn ogystal â chyfarfodydd y clinigwyr.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn wybodus ac yn cefnogi ei gilydd. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt hyder yn y rheolwyr ac y byddent yn gwybod â phwy i siarad pe bai angen help neu gymorth arnynt.

Roedd system addas yn cael ei defnyddio i nodi, cofnodi a rheoli'r risgiau, y materion ac unrhyw ffactorau lliniaru. Roedd rheolwr y practis hefyd yn gweithio gyda'r brif nyrs i gyfathrebu hysbysiadau diogelwch i'r staff ac yn arddangos hysbysiadau perthnasol yn yr ystafell staff.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwelsom gydberthnasau gwaith da ymysg y staff ac amgylchedd gweithio cadarnhaol yn y practis.

Roedd system briodol ar waith i sicrhau bod nifer addas o staff cymwysedig yn gweithio ar unrhyw adeg benodol. Gwnaethom edrych ar 6 o'r 17 o gofnodion staff, a gwelsom gydymffurfiaeth lawn â'r holl ofynion o ran hyfforddiant gorfodol. Roedd system addas a threfniadau cymorth cadarn ar waith i fonitro cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant a galluogi'r staff i gael hyfforddiant hyd at lefel briodol ar gyfer eu rolau. Roedd amser yn cael ei neilltuo er mwyn i bob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant, a dywedwyd wrthym fod clinigwyr deintyddol yn cael eu cefnogi i gofrestru ar gwrs mewnosod.

Gwelsom fod gweithdrefnau sefydlu yn cael eu rheoli mewn modd cefnogol ar gyfer aelodau newydd o staff a bod arfarniadau staff yn cael eu cynnal bob blwyddyn. Esboniodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad y byddent yn

gwybod beth i'w wneud a phwy i siarad â nhw pe byddai ganddynt bryder am y ffordd roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu, triniaethau neu drefniadau rheoli. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith i roi arweiniad ar sut y gall y staff godi pryderon.

Roedd gweithdrefnau addas ar waith ar y cyfan i sicrhau bod rhwymedigaethau proffesiynol y staff yn cael eu diweddarau'n barhaus a'u bod yn gywir. Roedd gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, dogfennaeth sgrinio iechyd ac yswiriant indemniad proffesiynol wedi'u cofnodi. Ni welsom fod unrhyw wiriadau geirda cyn cyflogi yn cael eu storio ar ffeil ar gyfer aelodau o staff sydd wedi gweithio yn y gwasanaeth ers amser hir. Fodd bynnag, rhoddwyd asesiad risg addas i AGIC a oedd yn amlinellu'r mesurau a gaiff eu rhoi ar waith i ddiogelu'r cleifion. Gwnaethom nodi hefyd bod gwiriadau geirda cyn cyflogi wedi cael eu cynnal ar yr holl aelodau newydd o staff.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd system addas ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion. Roedd poster i'w gweld o amgylch y practis a oedd yn galluogi'r cleifion i gyflwyno adborth ar-lein ac roedd adborth ar lafar gan y cleifion yn cael ei nodi mewn llyfr yn y dderbynfa. Roedd adborth yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan reolwr y practis a'i gyfleu i'r staff mewn cyfarfodydd neu drwy'r system cyfathrebu mewnol. Er bod y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth yn gadarn, ni welsom fod dull ar waith ar hyn o bryd i ymateb i'r hyn roedd y cleifion wedi ei ddweud wrth y practis. Gwnaethom drafod y defnydd o hysbysfwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni' yn y dderbynfa i hysbysu'r cleifion am yr hyn roedd y practis yn ei wneud mewn ymateb i'r adborth.

Dylai'r rheolwr cofrestredig roi ffordd o gyfleu sut mae'r practis wedi dysgu a gwella o'r adborth a gafwyd gan y cleifion ar waith.

Roedd y polisi cwynion yn cyd-fynd yn llawn â gweithdrefnau Gweithio i Wella'r GIG ac roedd gwybodaeth amdano ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros. Roedd y weithdrefn gwyno yn enwi'r aelod o staff y dylai'r cleifion gysylltu ag ef. Byddai unrhyw gwynion llafar yn cael eu cofnodi a'u rhannu â rheolwr y practis mewn modd amserol i'w datrys. Roedd y dull o uwchgyfeirio cwyn wedi'i nodi yn y daflen gwyno i gleifion, gan gynnwys manylion cyswllt AGIC a'r gwasanaeth eirioli dros gleifion, Llais. Gwelsom fod cwynion yn eitem sefydlog i'w thrafod yng nghyfarfodydd y practis a chyfarfodydd yr uwch-reolwyr.

Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau proffesiynol mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Er nad oedd cofnodion

o unrhyw gwynion diweddar na digwyddiadau yn ymwneud â'r Ddyletswydd Gonestrwydd, cawsom sicrwydd fod y prosesau a oedd ar waith yn gadarn.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod dull rhagweithiol o wella ansawdd ar waith a bod yr holl weithgareddau gwella gorfodol yn cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau cynhwysfawr a rheolaidd o gofnodion cleifion, rhagnodi gwrthficrobaidd, gwastraff gofal iechyd ac archwiliadau atal a rheoli heintiau. Roedd y practis yn defnyddio'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth er mwyn helpu i lywio gwelliannau parhaus. Roedd y practis hefyd yn archwilio meysydd eraill nad oedd yn orfodol eu harchwilio er mwyn gallu rhannu'r gwersi a ddysgwyd a darparu gofal diogel mewn ffordd well i gleifion, gan gynnwys cynnig nifer sefydlog o weithgareddau gwella ansawdd drwy Denplan.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Esboniodd y staff sut roeddent yn cynnal cydberthnasau gwaith da gyda grŵp clwstwr y bwrdd iechyd lleol. Roedd hyn yn cynnwys gwasanaethau gofal sylfaenol eraill, gan gynnwys y meddyg teulu a'r fferyllfa leol. Gwelsom fod proses briodol ar waith i fonitro a chynnal atgyfeiriadau a oedd yn cyrraedd ac yn gadael y practis.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Gwaun Cae Gurwen (GCG)

Dyddiad yr arolygiad: 03 Mehefin 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Gwaun Cae Gurwen (GCG)

Dyddiad yr arolygiad: 03 Mehefin 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Gwelsom fod yr asesiad risg o'r offer miniog yn nodi fod dyfeisiau offer miniog mwy diogel yn cael eu defnyddio i leihau'r risg o anafiadau damweiniol a achosir gan nodwyddau. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd dyfeisiau offer miniog mwy diogel yn cael eu defnyddio gan y staff clinigol ar hyn o bryd ac felly, ni	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd i drin, gwaredu, a storio offer miniog yn ddiogel er mwyn atal anafiadau a achosir gan nodwyddau.	Rheoliad 16 (1) (b) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae'r Asesiad Risg presennol ar gyfer trin, gwaredu a storio offer miniog yn ddiogel wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau. Mae bellach yn nodi'n gywir nad yw'r practis yn defnyddio system offer miniog mwy diogel, gan fod y clinigwyr wedi nodi nad yw'r systemau hyn yn ymarferol. Yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o'n llyfr damweiniau, a	Rheolwr Cofrestredig	Wedi'i gwblhau

	chawsom sicrwydd bod y risg i unigolion o ddioddef anafiadau a achosir gan offer miniog yn cael ei reoli'n gywir. Pan godwyd hyn â thîm rheoli'r practis, cawsom wybod y bydd y lleoliad yn archebu dyfeisiau offer miniog mwy diogel ac yn dechrau eu defnyddio er mwyn lleihau'r risg o anafiadau a achosir gan nodwyddau.			gadarnhaodd na roddwyd gwybod am unrhyw anafiadau a achoswyd gan nodwyddau dros gyfnod estynedig, penderfynwyd ei bod yn ddiogel ac yn effeithiol defnyddio'r dull Jenker o hyd yn ein lleoliad clinigol. Rydym wedi cynnal asesiad risg ar y penderfyniad hwn a'i ddogfennu yn unol â'r canllawiau iechyd a diogelwch presennol.		
2.	Gwnaethom nodi nifer o fylchau ac anghysondebau yng nghofnodion y cleifion yr oedd angen eu gwella: • Nid oedd hanes deintyddol blaenorol	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cyflawn eu cadw yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU.	Rheoliad 20 (1) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae'r practis wedi adolygu dau ddatrysiad o ran y feddalwedd ddeintyddol fel rhan o'n hymdrechion i fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd yng nghofnodion y cleifion. Mae'r ddau opsiwn yn cael eu gwerthuso ar eu gallu i gefnogi a	Rheolwr Cofrestredig	3 mis

pedwar claf wedi cael
ei gofnodi

- Dim ond un o'r
pedwar cofnod
perthnasol a welsom
oedd yn cynnwys
gwybodaeth am y
cyngor a roddwyd ar
roi'r gorau i smygu
- Nid oedd tri chofnod
yn cynnwys y rheswm
dros fynychu
- Nid oedd chwe
chofnod yn cynnwys
siartiau a oedd yn cael
eu diweddarau ar ôl
pob cwrs o driniaeth
- Nid oedd saith
cofnod yn amlinellu
cydsyniad y cleifion i
driniaeth ar sail
gwybodaeth
- Nid oedd dau gofnod
yn cynnwys

safoni arferion cadw
cofnodion yn unol â
gofynion y Cyngor
Deintyddol Cyffredinol.
Bydd gweithredu
datrysiad digidol
priodol yn rhan
allweddol o'n
hymrwymiad parhaus i
wella dogfennaeth
glinigol a sicrhau
cydymffurfiaeth â
safonau rheoliadol.

	cyfiawnhad dros radiograff • Nid oedd dau gofnod arall yn cynnwys canfyddiadau clinigol y radiograffau a gynhaliwyd • Nid oedd yr un cofnod perthnasol lle roedd gwrthfotigau wedi cael eu rhagnodi yn cynnwys cyfiawnhad cadarn dros ragnodi'r presgripsiwn.					
3.	Er bod y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth yn gadarn, ni welsom fod dull ar waith ar hyn o bryd i ymateb i'r hyn roedd y cleifion wedi ei ddweud wrth y practis. Gwnaethom	Dylai'r rheolwr cofrestredig roi ffordd o gyfleu sut mae'r practis wedi dysgu a gwella o'r adborth a gafwyd gan y cleifion ar waith.	Rheoliad 16 (1) (a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mewn ymateb i'r argymhelliad mewn perthynas ag adborth gan y cleifion, bydd y practis yn cyflwyno dull strwythuredig o ddysgu a gwella gwasanaethau yn seiliedig ar yr adborth a gawn. Fel rhan o'r fenter hon, byddwn yn	Rheolwr y Practis	1 mis

drafod y defnydd o hysbysfwrdd ‘dywedoeh chi, gwnaethom ni’ yn y dderbynfa i hysbysu'r cleifion am yr hyn roedd y practis yn ei wneud mewn ymateb i'r adborth.			arddangos poster “Dywedoeh Chi, Gwnaethom Ni” a fydd yn cael ei arddangos yn bennaf yn yr ardal aros. Bydd hyn yn ein galluogi i ddangos i'r cleifion sut rydym wedi cydnabod eu sylwadau a gweithredu arnynt, gan hyrwyddo tryloywder a gwelliant parhaus o ran ansawdd y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r dull hwn yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i ymgysylltu â'r cleifion a datblygu'r practis yn barhaus.		
---	--	--	---	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Mrs Rhian Clanfield

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad:

23/07/2025